

## Fe wnes i drefnu lleoliad cartref gofal yn breifat, ond a allaf gael cymorth gan yr awdurdod lleol?

**Ffeithlen 27**

(Ebrill 2020)

Os ydych wedi trefnu lleoliad mewn cartref gofal yn breifat yn Sir Gaerfyrddin ac yn dymuno i'r awdurdod lleol eich helpu gyda threfniadau'r contract yn y dyfodol, gallwch gysylltu â ni, a bydd yr awdurdod lleol yn ymweld â chi i asesu a oes angen lleoliad cartref gofal arnoch.

Os oes angen lleoliad gofal cartref arnoch, gall Cyngor Sir Caerfyrddin gymryd cyfrifoldeb dros drefniadau'r contract ond byddwch yn dal yn gyfrifol am unrhyw ffioedd cartref gofal sy'n ddyledus cyn i'r cyngor gymryd cyfrifoldeb dros y contract. Dylech barhau i dalu'r cartref gofal nes bod y Cyngor wedi cadarnhau ei fod wedi cymryd cyfrifoldeb dros y contract a'i fod wedi dechrau talu. Dylech adennill unrhyw ffioedd rydych wedi'u talu i'r cartref gofal ar ôl i'r Cyngor ddechrau contractio o'r cartref gofal.

### **A oes unrhyw amgylchiadau lle dylwn i gysylltu â'r Cyngor i gontractio ar gyfer fy lleoliad cartref gofal?**

Oes, os ydych yn debygol o golli galluedd meddyliol i gontractio am y cartref gofal yn y dyfodol neu os yw eich anwyliaid sydd mewn cartref gofal wedi colli galluedd meddyliol i barhau i gontractio'n breifat, ac nad oes gan unrhyw un arall awdurdod i gontractio ar ran y person hwnnw, cysylltwch â'r awdurdod lleol.

Hefyd, os ydych wedi ariannu eich lleoliad cartref gofal eich hun ac rydych yn agosáu at y trothwy cyfalaf<sup>1</sup>, dylech gysylltu â Chyngor Sir Caerfyrddin i gontractio ar eich rhan.

### **Sut ydw i'n cysylltu â'r Cyngor?**

Dylai pob cyswllt yn y lle cyntaf fod drwy Llesiant Delta drwy ffonio 0300 333 2222.

<sup>1</sup>Ar hyn o bryd, £50,000 yw'r trothwy a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ond mae fel arfer yn newid bob blwyddyn.



## A fydd yn rhaid i mi dalu unrhyw beth unwaith y bydd y Cyngor yn gyfrifol am y contract?

Fel arfer, bydd yn rhaid i chi dalu rhywbeth tuag at ffioedd eich cartref gofal.<sup>2</sup> Bydd gennych hawl i asesiad ariannol, a fydd yn dweud wrthyf faint y mae'n rhaid i chi ei dalu. Ni fydd Cyngor Sir Caerfyrddin byth yn codi mwy o dâl arnoch nag y mae'n talu'r cartref gofal. Fel arfer, bydd yn rhaid i chi dalu gyda'r rhan fwyaf o'ch incwm h.y. pensiwn, budd-daliadau ac ati felly mae'n bwysig rhoi'r arian hwn o'r neilltu.

## Sut mae cael rhagor o wybodaeth?

I gael rhagor o wybodaeth, gweler Ffeithlen 2 ynghylch symud i gartref gofal [www.sirgar.llyw.cymru/taflennigwybodaeth](http://www.sirgar.llyw.cymru/taflennigwybodaeth) neu cysylltwch â'r tîm asesu ariannol drwy cysylltu ☎ 01267 228769 ✉ SCHfinancialassess@sirgar.gov.uk

**Os hoffech gael y daflen hon mewn print bras, Braille neu ar dâp sain, ffoniwch:**

**☎ 01267 228703**

<sup>2</sup> Byddwch yn talu tuag at ffioedd y cartref gofal oni bai bod y lleoliad yn cael ei ddarparu: o dan adran 117 Deddf Iechyd Meddwl 1983; mae gennych glefyd Creutzfeldt Jacob; neu mae'r lleoliad yn cael ei ariannu drwy ofal iechyd parhaus.

